**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Chief Executive and Clerk of the Senedd

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

3 Tachwedd 2023

Annwyl Mark,

**Craffu ar adroddiad blynyddol a chyfrifon 2022-23**

Rwy'n ysgrifennu i roi'r wybodaeth bellach ichi a addawyd gennym yn ystod sesiwn holi'r Pwyllgor ar 12 Hydref.

Mae'r wybodaeth a ganlyn wedi'i nodi yn yr atodiad.

- Nodyn atodol ar broses recriwtio Cynghorwyr Annibynnol y Comisiwn.
- Nodyn atodol ar lefel yr ymosodiadau seiber a brofwyd gan y Comisiwn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Ymhellach i un mater sy'n weddill, gallaf gadarnhau na chafodd yr un achos o aflonyddu ei ddwyn yn erbyn Comisiwn y Senedd ac na wnaed unrhyw daliadau gan y Comisiwn mewn cysylltiad ag unrhyw faterion yn ymwneud ag aflonyddu honedig yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23.

Bydd nodyn atodol yn rhoi manylion meincnodi taliadau cymorth costau byw a wnaed gan Seneddau eraill yn cael ei ddarparu mewn nodyn cyfrinachol ar wahân gan fod yr wybodaeth honno wedi ei darparu i'r Comisiwn ar sail gyfrinachol.

Yn ystod y cyfarfod, dywedais hefyd y byddem yn cyhoeddi Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Taliadau. Mae hwnnw bellach ar gael ar wefan y Senedd: **Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol y Comisiwn (senedd.cymru)**

Yn olaf, codwyd mynediad allanol i'r fewnrwyd fel pwnc trafod ac fe'i trafodwyd yn ystod y cyfarfod. Ar ôl ystyried hyn ymhellach, hoffwn gynnig cyfarfod i'r Aelod a gododd y mater, Mike Hedges AS, â Phennaeth TGCh a thîm Seiberddiogelwch y Comisiwn a fydd yn hapus i ddarparu sesiwn friffio a thrafod unrhyw bryderon ac awgrymiadau sydd gan yr Aelod, a hynny'n gyfrinachol.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Contact@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Contact@senedd.wales
0300 200 6565

Hoffem ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith craffu. Mae'r Comisiwn bob amser yn ceisio gweithredu mewn ffordd agored, dryloyw a chlir. Os oes unrhyw beth arall y gallwn ei ddarparu ichi i gynorthwyo'r Pwyllgor, mae croeso ichi roi gwybod imi.

Yn gywir,

**Manon Antoniazzi**

**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd / Chief Executive and Clerk of the Senedd**

cc Comisiynwyr y Senedd, Ken Skates AS, Kate Innes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

# Atodiad

## 1 Nodyn Atodol ar Recriwtio a Dethol Cynghorwyr Annibynnol newydd

**Diben**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r camau a gymerwyd mewn perthynas â phenodi’r garfan newydd o 3 Chynghorydd Annibynnol - Mark Egan, Menai Owen-Jones, ac Uzo Iwobi - rhwng mis Mehefin 2022 a mis Tachwedd 2022.

**Y cefndir**

Mae dirprwyo swyddogaethau Comisiwn y Senedd i’r Prif Weithredwr a’r Clerc yn ddarostyngedig i nifer o eithriadau sy’n cynnwys penodi, telerau ac amodau a thâl Cynghorwyr Annibynnol anweithredol i’r Comisiwn.

Rôl y Cynghorwyr Annibynnol yw gweithredu ar sail ymgynghorol, anwleidyddol. Disgwylir i'r Cynghorwyr gynnig her adeiladol ar draws busnes y Comisiwn gyda'r bwriad o sicrhau bod pob agwedd ar strategaeth a darpariaeth yn destun craffu o safbwynt effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd. Maent yn cyfrannu at y gwaith o fonitro perfformiad a chynnydd y sefydliad, gan gynnwys defnydd o adnoddau dynol ac ariannol, ac yn cadw trosolwg beirniadol ar reolaethau a gweithdrefnau ariannol y sefydliad. Mae dau o'r Cynghorwyr Annibynnol yn aelodau o Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant y Comisiwn a'r Grŵp Llywio Ymgysylltu â'r Gweithlu.

**Chwilio Gweithredol**

Yn 2021, ymrwymodd y Comisiwn i gontract pedair blynedd gydag asiant chwilio gweithredol, Penna. Diben y contract yw cefnogi ymrwymiadau Amrywiaeth a Chynhwysiant y Comisiwn i gynyddu amrywiaeth ar draws uwch benodiadau a phenodiadau cyhoeddus y Comisiwn.

Oherwydd natur arbenigol a nifer y Cynghorwyr Annibynnol yr oedd eu hangen, cytunodd y Comisiwn y byddai’r ymgyrch hon yn elwa o waith chwilio gweithredol penodedig, er mwyn cael cronfa fwy amrywiol o ymgeiswyr, drwy ddulliau wedi'u targedu at ddarpar ymgeiswyr.

**Aelodau’r Panel**

Ar y panel dethol roedd:

- Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
- Siwan Davies, Dirprwy Brif Weithredwr a Chlerc a Chyfarwyddwr Busnes y Senedd
- Robert Evans, Cynghorydd Annibynnol i’r Comisiwn

**Hysbysebu'r rôl**

Cyhoeddwyd yr ymgyrch ym mis Mehefin 2022 a chafodd dolenni i'r hysbyseb ar wefan Penna eu rhoi ar wefan y Senedd. Defnyddiwyd cyfrifon Linked In Penna a’r Senedd hefyd i hyrwyddo'r cyfleoedd.

Ar ôl cyhoeddi'r hysbyseb, darparwyd adroddiadau chwilio interim cyfrinachol i'r panel dethol.

Daeth yr adroddiad chwilio terfynol i law yn fuan ar ôl y dyddiad cau ar 8 Awst 2022.

**Y rhestr hir**

Darparwyd pecyn rhestr hir a phob un o'r 19 o geisiadau (dogfennau CV a datganiadau ategol) i'r panel dethol ar 10 Awst 2022.

Cyfarfu Roger Russell (Penna) a'r panel dethol ar 12 Awst i adolygu'r rhestr gychwynnol o geisiadau ac i gytuno ar restr hir o ymgeiswyr er mwyn i Penna allu cynnal cyfweliadau rhagarweiniol cyn cyfarfod y rhestr fer ar 6 Medi 2022.

Cytunodd y panel i gynnig wyth ymgeisydd ar gyfer cyfweliadau rhagarweiniol. Cynhaliwyd y cyfweliadau hyn gan Roger Russell (Penna) ac Aled Eurig (Cynghorydd Annibynnol i Gomisiwn y Senedd).

**Y rhestr fer**

Ar ôl y cyfweliadau cychwynnol, darparodd Penna becyn rhestr fer a oedd yn cynnwys adroddiad cryno ar y sifft yn manylu ar yr ymgeiswyr fel a ganlyn:

- Argymell eu cyf-weld (6 ymgeisydd);
- Ymylol ar gyfer eu cyf-weld (3 ymgeisydd).

Roedd adroddiad y rhestr fer hefyd yn cynnwys hanes gyrfa byr ar gyfer pob ymgeisydd a sylwadau gan Penna yn seiliedig ar y cyfweliadau rhagarweiniol a gynhaliwyd.
Y ddogfen hon oedd sylfaen cyfarfod y rhestr fer a gynhaliwyd ar 6 Medi.
Roedd holl aelodau’r panel yn bresennol yn y cyfarfod ar 6 Medi, gan gynnwys Roger Russell. Cytunodd y panel i wahodd chwe ymgeisydd i gael cyfweliad ar 26 a 28 Medi a chytunwyd y byddai'r cyfweliadau hynny’n cael eu cynnal yn y cnawd ar ystad Tŷ Hywel.
Yna, cynhaliodd Penna gyfweliadau diwydrwydd dyladwy a geirdaon ar gyfer pob un o'r ymgeiswyr.

**Y Cyfweliadau Terfynol**

Cynhaliwyd y cyfweliadau yn y cnawd ar 26 a 28 Medi ar ystad Tŷ Hywel. Gofynnodd dau o'r ymgeiswyr am gyfweliad o bell.

Roedd pob cyfweliad yn para 45 munud, ac yn cynnwys ystod o gwestiynau'n seiliedig ar gymwyseddau yr oedd y panel wedi cytuno arnynt ymlaen llaw. Bwriad y cwestiynau oedd asesu addasrwydd yr ymgeiswyr ar gyfer y rôl a'r sgiliau a'r profiad y byddent yn eu cyfrannu.

Yn ystod pob cyfweliad, gwnaeth pob aelod o'r panel ei asesiadau ei hun. Ar ôl cwblhau pob cyfweliad, ystyriodd aelodau'r panel dethol yr holl dystiolaeth a ddarparwyd yn ystod pob un o gyfweliadau'r ymgeisydd a rhoddwyd sgôr gyffredinol i bob ymgeisydd.

Ar ôl cwblhau'r holl gyfweliadau cafwyd trafodaeth fanwl i gytuno ar yr ymgeiswyr a oedd yn cael eu ffafrio.

Derbyniodd Comisiwn y Senedd yr argymhelliad hwn ar 6 Hydref 2022 a phenodwyd yr ymgeiswyr.

## 2 Nodyn atodol ar nifer yr ymosodiadau seiber a brofwyd gan y Comisiwn.

Mae system TGCh y Senedd a'i defnyddwyr yn cael eu targedu gan filoedd o ymosodiadau seiber bob dydd. Mae'r rhain yn cynnwys gwahanol fathau o ymosodiadau ar sail e-bost megis gwe-rwydo, procio ein seilwaith a'n gwefan yn uniongyrchol, yn ogystal â risgiau amrywiol ar y we. Bob blwyddyn rydym yn rhwystro miliynau o e-byst, yn delio â miloedd o negeseuon gwe-rwydo a digwyddiadau ar y we, yn gweld miloedd o sganiau ar y rhwydwaith/y wefan, ac yn ymdrin â channoedd o ddigwyddiadau'n ymwneud â dyfeisiau.

Mae'r tabl isod yn rhoi rhywfaint o wybodaeth gefndir sylfaenol:

| Math o ymosodiad / fector ymosodiad / digwyddiad | 2022* | 2023* – y tri chwarter cyntaf |
|---|---|---|
| E-bost wedi'i rwystro | 1,118,315 | 529,188 |
| Gwe-rwydo | 76,075 | 39,312 |
| Ymosodiadau wedi'u hatal gan wal dân | 41,600 | 14,990 |
| Sganiau wedi'u canfod gan wal dân | 13,335 | 5,379 |
| Digwyddiadau / rhwystrau ar y we | 35,796 | 59,514 |
| Digwyddiadau Canfod ac Adfer Estynedig ar ddyfeisiau | 346 | 267 |

***Blwyddyn Galendr**

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r Gwasanaeth TGCh a Darlledu hefyd wedi ymateb i ymosodiadau DDoS (Rhwystriad Gwasanaeth Gwasgaredig), wedi darparu arweiniad yn ystod nifer o ymdrechion i dwyllo, ac wedi cynghori ar faterion technegol yn ymwneud â materion posibl o ran rheoli a diogelu data.